| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 30 Gorffennaf 2024 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog** | Y Cynghorydd Jason McLellan, Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd / Tony Ward, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Emlyn Jones, Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **Awdur yr Adroddiad** | Kim Waller, Rheolwr Rhaglen |
| **Teitl** | Dyfarniad Cyllid Ffyniant Bro Llywodraeth y DU (Rownd 3) – Etholaeth Dyffryn Clwyd. |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Dyfarniad Cyllid Ffyniant Bro Llywodraeth y DU (Rownd 3) ar gyfer etholaeth Dyffryn Clwyd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Yn unol â'r darpariaethau o fewn Cyfansoddiad y Cyngor, mae'r adroddiad hwn yn hysbysu'r Cabinet ynglŷn â'r penderfyniad brys a wnaed gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd/Aelod Arweiniol a'r Dirprwy Arweinydd i dderbyn y cynnig grant gan Lywodraeth y DU o £19,973,282 o dan Rownd 3 y Gronfa Ffyniant Bro. (Atodiad 1)

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cabinet

3.1. Yn cymeradwyo'r penderfyniad brys a wnaed gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd/Aelod Arweiniol

a’r Dirprwy Arweinydd i dderbyn y cynnig grant gan Lywodraeth y DU o £19,973,282 o dan Rownd 3 y Gronfa Ffyniant Bro.

3.2. Cadarnhau ei fod yn deall yr adroddiad a’r newidiadau a wnaed i gais Dyffryn Clwyd i’r Gronfa Ffyniant Bro fel rhan o broses ddyrannu cyllid Rownd 3 Llywodraeth y DU a’i fod yn derbyn y Dyraniad Grant Rownd 3 ar gyfer etholaeth Dyffryn Clwyd.

3.3. Cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o’r Effaith ar Les (Atodiad 2) fel rhan o’i ystyriaethau.

# 4. Manylion yr adroddiad

## Cefndir

4.1. Lansiodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y Gronfa Ffyniant Bro yn 2021. Diben y gronfa yw buddsoddi mewn isadeiledd a fydd yn gwneud y gwelliant mwyaf i fywyd pob dydd, gan gynnwys hen ardaloedd diwydiannol, trefi difreintiedig a chymunedau arfordirol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal 2 rownd ymgeisio gystadleuol gan roi cyfle i Awdurdodau Lleol wneud cais am gyllid Ffyniant Bro i gefnogi prosiectau dan y 3 thema canlynol; Adfywio, Treftadaeth a Chludiant.

4.2. Gwahoddwyd Awdurdodau Lleol (ALl) i gyflwyno un cais fesul etholaeth o fewn eu ffiniau. Gallai bob cais ardal etholaeth fod yn uchafswm o £20 miliwn (M) o gyllid cyfalaf a chynnwys cyfraniad arian cyfatebol o 10%.

4.3. Ym mis Rhagfyr 2021, penderfynodd y Cabinet gyflwyno cais ar gyfer etholaeth Dyffryn Clwyd yn Rownd 2 o’r broses Cronfa Ffyniant Bro (Atodiad 3). Roedd y cynnig yn cynnwys 10% o gyfraniad arian cyfatebol gan Gyngor Sir Ddinbych a oedd yn gyfwerth â £1.9 miliwn.

## Canlyniad Rowndiau Ymgeisio 1 a 2 y Gronfa Ffyniant Bro

4.4. Mae Sir Ddinbych wedi cyflwyno ceisiadau ar gyfer y 3 etholaeth yn Sir Ddinbych: De Clwyd, Gorllewin Clwyd a Dyffryn Clwyd.

4.5. Cyflwynwyd cais ar gyfer etholaeth De Clwyd ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (ymgeisydd arweiniol) yn Rownd 1 ac fe'i cymeradwywyd ym mis Hydref 2021. Cyflwynwyd ceisiadau ar gyfer etholaethau Gorllewin Clwyd a Dyffryn Clwyd yn Rownd 2 ym mis Awst 2022. Ym mis Ionawr 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU bod y cais Cronfa Ffyniant Bro ar gyfer etholaeth Gorllewin Clwyd wedi cael ei gymeradwyo ond nid oedd cynnig etholaeth Dyffryn Clwyd yn llwyddiannus.

## Rownd 3 y Gronfa Ffyniant Bro

4.6. Ym mis Tachwedd 2023, rhoddodd Llywodraeth y DU wybod i Gyngor Sir Ddinbych bod Etholaeth Dyffryn Clwyd wedi cael cynnig dyraniad dros dro o bron i £20 miliwn yn Rownd 3 y Gronfa Ffyniant Bro. Roedd hyn yn seiliedig ar werthusiad blaenorol o geisiadau a gyflwynwyd yn Awst 2022 o dan Rownd 2.

4.7. Gwahoddwyd Cyngor Sir Ddinbych i adolygu'r cais a chymryd unrhyw newidiadau i ystyriaeth. Nid oedd Llywodraeth y DU yn gwahodd Awdurdodau Lleol i gyflwyno unrhyw brosiectau newydd/ychwanegol, ond cydnabuwyd bod cryn dipyn o amser wedi pasio ac efallai y byddai angen adlewyrchu hyn mewn cais diwygiedig.

4.8. Mae 3 diwygiad wedi cael eu gwneud i adlewyrchu'r newid mewn amgylchiadau ers iddo gael ei gyflwyno ym mis Awst 2022. Mae Atodiad 4 yn amlinellu'r pecyn diwygiedig.

- Mae 3 prosiect sydd wedi sicrhau cyllid amgen wedi cael eu tynnu o'r cais (prosiectau Coed y Brain, y Farchnad Fenyn, Bodelwyddan).
- Bodlonir y dyraniad arian cyfatebol o 10% sy'n ofynnol gan y cais drwy gyllid Bargen Dwf a sicrhawyd ar gyfer prosiect hen Ysbyty Gogledd Cymru. Mae ymrwymiad gwreiddiol y Cyngor o £1.9 miliwn o arian cyfatebol CSDd wedi cael ei dynnu'n ôl o gais Rownd 3.
- Mae'r cyllid Cronfa Ffyniant Bro rhwng y 3 ardal prosiect yn y Rhyl, Sir Ddinbych Mewnol a Phrestatyn wedi cael ei addasu i adlewyrchu effaith chwyddiant.

4.9. Mae gwerth y cyllid Ffyniant Bro a sicrhawyd ar gyfer yr ardal yn parhau i fod yr un fath. Mae amcangyfrifon o gostau prosiect wedi cynyddu ers cyflwyno'r cais

yn 2022. Mae blaenoriaethu prosiectau o fewn y cais gwreiddiol nad ydynt hyd yma wedi sicrhau unrhyw gyllid amgen, yn golygu y bu'n bosib ail-alinio cyllid y Gronfa Ffyniant Bro i sicrhau y gellir parhau i gyflawni newid trawsnewidiol.

4.10. Fel sy'n arfer digwydd gyda phrosiectau adeiladu, bydd yn rhaid talu 2.5% o gostau adeiladu a ffioedd cysylltiedig i'r contractwyr 12 mis ar ôl cwblhau'r gwaith sydd y tu hwnt i gyfnod ariannu y Gronfa Ffyniant Bro. Y gwerth dangosol yn seiliedig ar ffioedd adeiladu ar gyfer prosiectau CSDd o fewn y cais yw £331,000. Disgwylir y byddai'r rhain yn cael eu talu o'r Gronfa Ffyniant Bro neu gyllid allanol arall ond os nad yw hyn yn bosib byddai angen i'r Cyngor dalu'r costau hyn. Cynhelir adolygiadau rheolaidd a gellir atal gweithgareddau pe bai angen.

### Y Camau Nesaf

4.11 Ddiwedd Mai 2024, a diwrnodau cyn cyhoeddi'r etholiad cyffredinol a'r cyfnod cyn-etholiad, bu i Lywodraeth y DU gadarnhau cymeradwyaeth o'r dyfarniad a chyhoeddi Memorandwm o Ddealltwriaeth i'r Cyngor i'w lofnodi a'i ddychwelyd er mwyn derbyn y dyfarniad.

4.12 Gan fod yr amserlen gyflawni yn heriol mae'n hanfodol fod y Cyngor yn symud ymlaen yn gyflym gyda'r broses dderbyn. Disgwylir i gymeradwyaeth weinidogol derfynol o'r Memorandwm o Ddealltwriaeth ddigwydd ar ôl yr etholiadau cyffredinol ar 4 Gorffennaf 2024. Bydd derbyn a dychwelyd y Memorandwm o Ddealltwriaeth yn brydlon yn caniatáu cychwyn y broses gymeradwyo ffurfiol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae'r prosiectau yn y cais yn ceisio cael effaith weledol mewn ardaloedd lleol, yn arbennig yr ardaloedd sydd â'r lefel uchaf o angen. Mae'r cais felly'n cyfrannu at themâu'r Cynllun Corfforaethol sy'n ymwneud â Sir Ddinbych Ffyniannus a Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd.

5.2. Caiff prosiectau eu hadolygu i sicrhau cyfraniad niwtral neu gadarnhaol tuag at gyflawni'r nodau i fod yn Gyngor Ecolegol Gadarnhaol a Di-garbon erbyn 2030.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd y cais yn sicrhau bron i £20 miliwn ar gyfer prosiectau o fewn etholaeth Dyffryn Clwyd heb ddim costau i'r Cyngor. Ni ofynnir am gyfraniad arian cyfatebol bellach gan y Cyngor (£1.9 miliwn). Mae dyraniad rheoli prosiect o 5% wedi'i gynnwys o fewn y cais a fydd yn talu am gostau rhaglen. Bydd pob opsiwn yn cael ei ystyried i fodloni'r costau cadw disgwyliedig er mwyn lleihau costau i'r Cyngor yn y dyfodol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Mae'r prif gasgliadau'n amlygu'r effeithiau cadarnhaol a ddisgwylir, ond bydd asesiadau o effaith ar les hefyd yn cael eu cwblhau ar brosiectau unigol.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ymgynghorwyd â Grwpiau Ardal yr Aelodau, Cynghorau Tref, Aelodau unigol a'r AS fel rhan o'r broses Rownd 2. Bu trafodaeth yn ddiweddar rhwng yr Aelod Arweiniol, Aelodau lleol a'r AS a thrafodaeth anffurfiol gyda'r Cabinet yn Ebrill 2024.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae Cyllid Ffyniant Bro yn ffynhonnell bwysig o arian cyfalaf i adfywio ein cymunedau. O ystyried sefyllfa ariannol y Cyngor ar hyn o bryd, bydd yn rhaid rhoi mwy o ddibyniaeth ar gyllid allanol i ariannu ein cynllun cyfalaf i'r dyfodol. Mae'r ffaith ein bod wedi gallu defnyddio cyllid y fargen dwf i fodloni'r arian cyfatebol gofynnol o 10% yn gadarnhaol. Mae'n bwysig nodi'r sefyllfa o ran costau cadw a amlinellir yn 4.10.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae'r amserlenni ar gyfer darparu prosiectau Rownd 3 yn heriol gyda'r dyddiad cau ym mis Mawrth 2026. Mae gwaith yn mynd rhagddo i fwrw ymlaen â'r prosiectau cyn gynted â phosibl.

10.2. Mae perygl efallai y bydd yn rhaid i’r Cyngor dalu costau cadw. Bydd gwaith yn parhau i ganfod atebion i reoli hyn.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 111, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Adran 2, Deddf Llywodraeth Leol 2000. Y pŵer i ymgymryd â gweithgareddau i hyrwyddo lles cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol yr ardal.

11.2. Atodiad 3 i Adran 13 Cyfansoddiad y Cyngor